## PAPURAU BUSNES

## 26 Ionawr 2000

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybudd o Gynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol

## Cynigion a gyflwynwyd ar 19 Ionawr 2000

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

Cynnig bod y Cynulliad:

a. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ynghylch Gorchymyn drafft "Ymgymerwyr Dr (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000" a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2000;

(b) yn ystyried egwyddor y Gorchymyn;

c. yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2000.

**NDM167**

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

Cynnig bod y Cynulliad:

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ynghylch Gorchymyn drafft "BG plc (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000" a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Rhagfyr 1999;

(b) yn ystyried egwyddor y Gorchymyn;

a. ac yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Rhagfyr 1999.

**NDM169**

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe) ;**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â rheol sefydlog 6.28, yn penderfynu mabwysiadu fel cyfarwyddyd ynghylch Cwestiynau Llafar ac Ysgrifenedig y Cynulliad y ddogfen dan y teitl hwnnw a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2000.

**NDM170**

**Andrew Davies *(Gorllewin Abertawe*) ;**

Cynnig bod y Cynulliad yn;

- croesawu'r cynigion diwygiedig ar gyfer Adeilad newydd y Cynulliad a ddisgrifir yn 'New Assembly Building Project – Assembly Progress Report No 1/2000' a osodwyd yn y swyddfa gyflwyno ar 19 Ionawr 2000
- nodi'r amcangyfrif diwygiedig o gostau'r cynllun
- cytuno y dylai'r datblygiad yn awr fynd rhagddo ar y sail ddiwygiedig hon gyda'r amcan o sicrhau bod adeilad llwyr weithredol ar gael erbyn Awst 2002
- mynnu bod yn rhaid i waith pellach ar y cynllun barhau i roi sylw llawn i ofynion hygyrchedd, yr angen am gyfleusterau cyhoeddus da a bod yn rhaid ymgynghori'n llawn â chynrychiolwyr buddiannau priodol yn ystod y broses o gynllunio'n fanwl
- galw am ddefnyddio cymaint â phosibl o ddeunyddiau Cymreig wrth adeiladu'r adeilad, yn gyson â deddfwriaeth yr UE ac ystyriaethau caffael a gwerth am arian."

**NDM168**

**Andrew Davies *(Gorllewin Abertawe);***

Cynnig bod y Cynulliad yn cytuno ar y gwelliannau a ganlyn i'w gyfarwyddyd ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau a fabwysiadwyd yn ffurfiol ar 25 Mai 1999:

(1) Ar ôl paragraff 3

Paragraff 4 newydd

Gallai'r Llywydd hefyd wrthod dewis gwelliant os bydd yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny er mwyn cynnal busnes y Cynulliad yn briodol.

(2) Ym mharagraff 4 ar ôl y frawddeg gyntaf sy’n gorffen â’r geiriau " yn y ddadl"

rhoi "Gallai’r Llywydd hefyd ddewis grwpio gwelliannau yn ôl pleidiau gwleidyddol (gan alw un siaradwr o bob grp plaid i siarad am bob un o’u gwelliannau)."

(3) Ym mharagraff 5, ar ôl "galw ar Aelodau i’w cynnig"

rhoi "(yn amodol ar bara 5 uchod)"

(4) Paragraff 8, ar ôl "Pleidleisir "

dileu o "drwy ddangos dwylo" i "Cynhelir pleidlais felly""

(5) Paragraff 13, ar y diwedd

rhoi "Gallai’r Llywydd hefyd, os teimla bod hynny’n briodol, grwpio gwelliannau yn ôl pleidiau gwleidyddol."

(6) Paragraff 14 ar y diwedd

rhoi "(gweler paragraff 14 uchod)"

(7) Ail-rifo’r paragraffau

Gosodwyd fersiwn diweddaraf y cyfarwyddyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2000 a gellir mynd ato drwy’r Fewnrwyd drwy Canllawiau’r Cynulliad / "Grwpio Gwelliannau".

**NDM171**

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 21 Ionawr 2000

**NDM168**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliant canlynol i’r cynnig uchod:

**Michael German (Dwyrain De Cymru)**

Ychwaneger pwynt bwled ychwanegol ar ddiwedd y cynnig:

"yn ail ddatgan yr angen am fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch cost yr adeilad newydd"

**NDM 168**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i’r cynnig uchod:

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Yn y pwynt bwled cyntaf, rhodder "nodi’r" yn lle "croesawu’r"

Dileer pwyntiau bwled 3, 4 a 5 a rhodder yn eu lle "cytuno y dylid bellach roi’r gorau i’r datblygiad"

**NDM168**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i’r cynnig uchod:

**Helen Mary Jones (Llanelli);**

Ychwaneger at ddiwedd y cynnig :

sefydlu mesurau i sicrhau bod y gwaith a gyflawnir o’r safon amgylcheddol uchaf, gan gymryd amgylchiadau lleol i ystyriaeth.